**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd nos Fawrth 16 Chwefror 2021 drwy Zoom.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Phillip Roberts (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Cemlyn Jones, Goronwy Hughes, Iola Parry, Hefin Jones, Meirwen Lloyd, Dylan Jones, Martin Jones, Beca Brown, Richard Robinson, Alan Pritchard.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Gwion Llwyd, Haf Williams

**749. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd

**750. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**751. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**752. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 19 o Ionawr 2021**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**753. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

Dim

**754. I dderbyn adroddiad gan Bwyllgor y Fynwent ac i dderbyn cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd 13 Ionawr 2021.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Hefin Jones, Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent, fod aelodau lleol o'r Eglwys wedi ymgymryd a gwaith o docio coed a thacluso'r fynwent ac fod ffrwd eu gwaith i'w weld.

Rydym yn parhau yn y sefyllfa ein bod yn disgwyl cario allan asesiad risg ar y fynwent ac ar hyn o bryd does dim syniad pa bryd gellir gwneud hyn oddi tan y cyfyngiadau presennol.

Mae'r broses o ddigideiddio manylion y fynwent yn parhau.

Fod y fainc a ofynnwyd caniatâd i'r rhoi yn y fynwent er cof am aelod o'r teulu sydd wedi claddu yn y fynwent ddim wedi gosod hyd yma.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am y wybodaeth

**755. I gymeradwyo cyflogi person i fewnbynnu data i system reolaeth mynwent y cyngor.**

Adroddwyd fod y gwaith sydd angen ei wneud i fewnbynnu'r data yn y system yn sylweddol ac bydd angen cymorth i wneud hyn. Adroddwyd fod y Cadeirydd y cyngor a cadeirydd pwyllgor y fynwent (mewn arbrofiant) ein bod wedi gallu rhannu sgrin o gyfrifiadur y clerc i weld y system.

**Penderfynwyd:**

**a)** Trefnu sesiwn ar gyfer aelodau Pwyllgor y Fynwent i weld y system yn gweithio
**b)** Cysylltu a Prifysgol Bangor i holi os oes ganddynt hwy ddiddordeb mewn ymgymryd a'r gwaith
**c)** Derbyniwyd a diolchwyd am yr adroddiad

**756. I dderbyn adroddiad gan Pwyllgor Cyllid ac i gymeradwyo cofnodion o gyfarfod y pwyllgor a gynhaliwyd 18 Ionawr 2021**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones fod y pwyllgor wedi cyfarfod ac ymysg y materion a drafodwyd oedd

Adolygwyd y gwariant cyfredol ar gyfer y flwyddyn ynghyd a'r gwariant tebygol o nawr hyd ddiwedd Mawrth

Nodwyd nad oedd grant a dderbyniwyd tuag at y gampfa yn golygu fod diffyg o tua £3,500 bydd angen i'r cyngor gymeradwyo ac addaswyd y gyllideb i ystyried hyn

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**757. I dderbyn adroddiad gan Bwyllgor y Hamdden a Mwynderau ac i dderbyn cofnodion o gyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd 11 Ionawr 2021**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Cemlyn Jones, Cadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau fod aelodau o'r pwyllgor wedi cyfarfod a drafod lleoliad yr offer ac fod yr offer i fod i gyrraedd wythnos 22 o Chwefror os bydd y tywydd yn caniatáu.

Adroddwyd ymhellach fod y pwyllgor yn edrych fewn i ymgysylltu a'r gymuned parthed materion yn ymwneud problemau baw cŵn a diffyg biniau mewn rhai mannau. Nodwyd fod cyfarfod yn cael eu drefnu rhwng y pwyllgor ac un o reolwyr Cyngor Gwynedd parthed opsiynau sydd yn agored i'r cyngor cymuned.

Nodwyd fod y swyddog gorfodaeth yn ymweld a Llanrug o dro i dro ac atgoffir unrhyw un sydd yn gweld rhywun ddim yn codi baw ei ci i adrodd am y digwyddiad at Gyngor Gwynedd.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**758. I gymeradwyo symud ymlaen a'r gwaith o osod cyfarpar ar y lampau cyn 31 o Fawrth 2021**

Adroddwyd fod rhai o aelodau Pwyllgor Hamdden wedi cerdded y pentref yn dewis postiai ble byddai yn addas i osod addurniadau Nadolig ac fod angen penderfyniad y cyngor i symud ymlaen a'r gwaith ar anfon rhestr at Gyngor Gwynedd am eu caniatâd, oherwydd mae'n bosib ni fydd yn bosib gosod y strwythur ar ambell i lamp.

**Penderfynwyd:**

**a)** Derbyn y wybodaeth a cymeradwyo'r gwaith o osod y strwythurau ar y lampau.
b) Anfon y rhestr ymlaen ar Gyngor Gwynedd fel gellir gwneud y gwaith cyn gynted a phosib

**759. I dderbyn diweddariad ar gynllun Fairshare**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, fod y cynllun wedi ei sefydlu ac ei fod yn rhedeg yn dda, gyda'r bwyd yn cyrraedd Fangor, a bydd ef wedyn yn ei gludo i'r hen ysgol yn Cwm y Glo ar gyfer ei ddosbarthu.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**760. I dderbyn polisi iechyd a diogelwch sydd eisoes wedi ei gylchredeg.**

**Penderfynwyd:** Derbyn y polisi iechyd a diogelwch

**761. I dderbyn adroddiad gan y Cyng. Berwyn Parry Jones ar weithgareddau Cyngor Gwynedd.**

**Cynllun Prynu tai**

Cabinet wedi cytuno i buddsoddi £15.4m i brynu oddeutu 100 o dai i'w gosod i drigolion Gwynedd ar rent fforddiadwy. Y Cyngor i wneud y pryniant ac unrhyw welliannau i gael y tai yn barod i'w osod. Posibilrwydd mynd i bartneriaeth hefo'r Cymdeithasau Tai, i'w rheoli nhw ar ôl iddynt cael eu gosod.

**Cynllun y Cyngor 2018 – 2023 – Adolygiad 2021-22**

Mae rhai newidiadau bach i'r cynllun i raddau oherwydd Covid:-

e.e. Strategaeth Digidol Ysgolion – sicrhau fod y gwasanaeth digidol yn deg ar draws y sir fel fod pob disgybl yn cael cyfle teg.

Ail strwythuro yr Adran Gwarchod y Cyhoedd – wedi dod yn amlwg yn ystod y cyfnod Covid fod yr adran yma wedi bod yn ganolog i ymateb y Cyngor, ac y staff wedi cael eu tynnu i ffwrdd o'i gwaith arferol i ymateb i'r

pandemig. Yn y dyfodol bydd rhaid fod yn barod i wneud y gwaith dydd i ddydd ac cario ymlaen hefo'r gwaith profi ac olrhain.

**Eitemau yn mynd i'r Cyngor Llawn yn mis Mawrth**

**Y Gyllideb**

Setliad eithaf gan Llywodraeth Cymru 3.4% ychydig yn llai na'r cyfartaledd o 3.6%

Angen i Gwynedd godi y dreth o 3% i dalu am gostau ychwanegol anorfod, ond yr argymhelliad o flaen y cabinet heddiw yw i godi y dreth o 3.7% er mwyn talu am gostau eraill a fyddai yn golygu toriad mewn gwasanaeth petai y dreth ddim yn codi i 3.7%. Mae hyn yn cyd fynd mwy neu lai hefo cynghorau eraill y Gogledd. Y ddau outlier yw Conwy hefo codiad o 2.9% a Wrecsam hefo codiad o dros 5%, mae rhesymau teg pam fod hyn yn digwydd. Am y tro cyntaf ers dros 10 mlynedd tydi'r cyngor ddim yn bwriadu gwneud arbedion ychwanegol eleni

Effaith Covid – Y cyngor yn hawliau costau ar ffyrdd grant i Llywodraeth Cymru, hyd yn hyn y costau i gyd yn cael eu talu ar ffurf grant.

**Premiwm Treth Cyngor ar ail Gartrefi ac eiddo gwag hir dymor.**

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn codi 50% ychwanegol ar ail gartrefi, ond fe ofynnodd cyngor Llawn yn ei gyfarfod yn mis Rhagfyr i'r Cabinet gysidro codi y dreth i fyny hyd at 100%. Mae'r Cyngor wedi ymgynghori ar y mater, ac fel fuasai rhywun yn disgwyl, roedd perchnogion ail gartrefi yn erbyn y codiad, a'r bobol cynhenid o blaid, mae'r cabinet wedi trafod pnawn ma.

**Yn Lleol**

**Gor yrru allt Ceunant**.

Erbyn hyn mewn trafodaeth gyda'r Awdurdod am y lle gorau i ail-leoli yr arwydd 30mya sydd ar hyn o bryd ar y gornel hanner ffordd i lawr yr allt.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**762. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanrug.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Cemlyn Jones, nad oedd llawer o gyfarfodydd wedi eu cynnal ond fod un wedi gynnal wythnos diwethaf ac ymysg yr eitemau a drafodwyd oedd gwariant yr ysgol ar gyfer y flwyddyn nesaf a cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Mynegodd y Cynghorydd Cemlyn Jones ei ddymuniad i eistedd lawr fel cynrychiolydd y cyngor ar fwrdd llywodraethwyr ac os oedd unrhyw un yn fodlon cymryd ei le,

**Penderfynwyd:**

**a)** Derbyniwyd y wybodaeth a diolchwyd i'r Cynghorydd Cemlyn Jones am ei waith.
**b)** Etholwyd y Cynghorydd Beca Brown fel cynrychiolydd y cyngor a Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd, Llanrug
**c)** Y Clerc i hysbysu'r bwrdd o'r penderfyniad yma

**763. Ceisiadau am gymorth ariannol**

**a) Clwb Pêl droed Llanrug Unedig**
**b) Radio Ysbyty Gwynedd**

**Penderfynwyd rhoi cyfraniad ariannol fel a ganlyn**

a) Clwb Pêl droed Llanrug Unedig - £1,000
b) Radio Ysbyty Gwynedd - £250

Ar yr amod fod y cyngor yn derbyn adborth ar sut mae'r cyfraniad wedi helpu'r mudiad

**764. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C21/0054/23/DT

**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ

**Bwriad:** Estyniad i'r tô er mwyn creu ffenestr gromen

**Ymgeisydd:** Mr D Owen

**Cyfeiriad:** Swyn Yr Awel Ffordd Yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AE

**Cyfeirnod Grid:** 253509.91, 363516.28

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

**765. Llwybr aml bwrpas Llanrug**

I ystyried ymateb Cyngor Cymuned Llanrug i'r uchod

Derbyniwyd cyflwyniad gan Mr Dafydd Whiteside Thomas, parthed yr ymgynghoriad gan Gyngor Gwynedd am y lwybr aml bwrpas Lon Las, sydd yn rhedeg o Llanberis gyda'r bwriad o barhau'r llwybr i Gaernarfon. Derbyniwyd copi o lythyr roedd Mr Whiteside Thomas wedi anfon at Gyngor Gwynedd ac roedd yn gofyn, os oedd y cyngor cymuned wedi cael gwybodaeth am yr ymgynghoriad ac wedi ymateb.
Cafwyd cefndir hanes y llwybr gan Mr Whiteside Thomas a'r gwahanol anawsterau a peryglon fyddai yn wynebu cerddwyr a beicwyr wrth ddefnyddio'r llwybr arfaethedig.

**Penderfynwyd:**

**a)** Diolchwyd i Mr Dafydd Whiteside Thomas am ei gyfraniad ac am ddwyn hyn i sylw'r cyngor
**b)** Ysgrifennu at Gyngor Gwynedd gyda sylwadau am y cynllun llwybr arfaethedig.

Mae Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 Adran 1 (2) yn nodi "Caiff corff, trwy benderfyniad, wahardd y cyhoedd o gyfarfod (p'un ai yn ystod yr achos cyfan neu ran ohono) pryd bynnag y byddai cyhoeddusrwydd yn niweidiol i fudd y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes i gael ei drafod neu am resymau arbennig eraill a nodwyd yn y penderfyniad ac sy'n deillio o natur y busnes hwnnw neu'r achos; a phan fydd penderfyniad o'r fath yn cael ei basio, ni fydd y Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfarfod bod yn agored i'r cyhoedd yn ystod achos y mae'r penderfyniad yn berthnasol iddo. "

**766. Mae angen i'r cyngor benderfynu os am atal y cyhoedd o'r cyfarfod am yr eitem canlynol.**

**Penderfynwyd**: Atal y cyhoedd o'r cyfarfod

**767. Hysbysiad o gynnig gan y Cynghorydd Philip Roberts (Y Cynghorydd Avril Jones i gadeirio'r eitem hon)**

**Mae'r Cyngor Cymuned yn nodi:**

Ym mis Gorffennaf 2020 derbyniodd y Cyngor argymhelliad yr Adroddiad Archwiliwr Mewnol ( Mai 2020) y dylid cyflwyno cytundeb cyflogaeth gyflawn i glerc y Cyngor Cymuned.

Ym mis Hydref 2020, cafodd y pwyllgor Cyllid y dasg o gyflawni'r argymhelliad hwn.

Paratowyd disgrifiad swydd drafft gan aelodau'r pwyllgor Cyllid a'i rannu â'r clerc ym mis Ionawr 2020.

Nid yw'r Disgrifiad Swydd drafft wedi'i drafod eto gan yr is-bwyllgor Cyllid na chan y Cyngor llawn.

Mae'r Cyngor yn penderfynu:

Cyflawni argymhelliad yr Adroddiad Archwiliwr Mewnol ynghylch cytundeb cyflogaeth gyflawn y clerc erbyn dyddiad yr adroddiad nesaf ar y hwyraf.

Cyflawni argymhelliad yr Adroddiad Archwiliwr Mewnol drwy sicrhau hygrededd proses a chyfansoddiad y cytundeb cyflogaeth llawn drwy ddefnyddio cyngor ac arweiniad allanol.

**Penderfynwyd:** Cafodd y cynnig yma ei dynnu’n ôl.

Daeth y cyfarfod i ben am 21:25

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 16 o Fawrth 2021